

CHARLES, BERTIE GEORGE (1908-2000), ysgolhaig ac archifydd

Enw: Bertie George Charles
Dyddiad geni: 1908
Dyddiad marw: 2000
Priod: Mary Charles
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig ac archifydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: John Graham Jones

Ganwyd ef 13 Chwefror 1908 ym Mhen-parc, ger Trefin, sir Benfro. Magwyd ef ar Fferm Tresinwen ac addysgwyd ef yn ysgol elfennol Henner ac Ysgol Ramadeg Abergwaun, lle cafodd ei ddysgu gan **D. J. Williams** yr athro Saesneg. Yn Hydref 1926 aeth i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, i astudio Saesneg, a graddiodd yno gyda gradd anrhydedd yn y dosbarth cyntaf eithriadol ddisglair ym mis Mehefin 1929. Ym 1930 dyfarnwyd iddo ysgoloriaeth ymchwil ac ym 1932 dyfarnwyd iddo radd MA Prifysgol Cymru gyda rhagoriaeth am draethawd ar 'Norse Relations with Wales'. Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn ddiweddarach gan Fwrdd Gwasg Prifysgol Cymru ym 1934 a chafodd groeso arbennig. Yn y cyfamser roedd Bertie Charles wedi derbyn Cymrodoriaeth Prifysgol Cymru ac aeth i Brifysgol Llundain lle gwnaeth waith ymchwil pellach ar enwau lleoedd Sir Benfro. Dyfarnwyd iddo radd Ph.D. ym 1935 a chyhoeddwyd fersiwn estynedig o'r gwaith fel *Non-Celtic Place-names in Wales* gan Brifysgol Llundain ym 1938. Eto roedd yr adolygiadau yn ganmoliaethus dros ben. Erbyn hyn roedd Dr Charles ym 1936 wedi cychwyn ar swydd o fewn Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bu ar wasanaeth milwrol yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ond dychwelodd i swydd, a oedd wedi'i hailraddi'n 'Geidwad Cynorthwyol I' ym 1945. Parhaodd yn y swydd hon nes iddo ymddeol yng ngwanwyn 1973.

Yn ystod ei yrfa broffesiynol hirfaith lluniodd Bertie Charles gatalogau nifer fawr o archifau, yn bennaf o ddogfennau tir o'r oesoedd canol a'r cyfnod modern cynnar. O fewn y Llyfrgell Genedlaethol roedd parch mawr iddo fel palaeograffydd heb ei ail, storiwr doniol a difyr, a swyddog undeb arloesol ac ymroddedig. Bu hefyd yn ymchwilydd rhyfeddol o ddygn, gan gwblhau nifer o brosiectau ymchwil uchelgeisiol. Hyd at 1953 cyhoeddodd nifer o erthyglau mewn cylchgronau academiaidd. Ym 1967 ymddangosodd *Calendar of the Records of the Borough of Haverfordwest, 1539-1660*, gwaith a welodd olau dydd fel cyfrol XXIV yng nghyfres nodedig *Hanes a Chyfraith Prifysgol Cymru* dan nawdd Bwrdd Gwybodau Celtaidd y Brifysgol. Cyflwynwyd y cofnodion gwreiddiol ar adnau i'r Llyfrgell ym 1948 a Dr Charles a fu'n gyfrifol am eu rhestru. Chwe blynedd yn ddiweddarach, ym 1973, blwyddyn ei ymddeoliad, ymddangosodd y gyfrol feistrolgar *George Owen of Henllys: a Welsh Elizabethan*. Treuliodd yr awdur flynyddoedd meithlon yn ymchwilio ar ei chyfer, gan ailfeddwl ac yn ailwampio ei chynnwys. Roedd ynddi ddadansoddiad diwylliedig o'r safon uchaf. Ar ôl iddo ymddeol parhaodd i ymchwilio gydag egni o'r newydd. Ym 1982 cyhoeddodd Cymdeithas Hanes Sir Benfro ei *The English Dialect of South Pembrokeshire: Introduction and Word-List*, cyfrol fer yn cynnwys pumdeg pedwar o dudalennau. Cyhoeddwyd gwaith mwyaf sylweddol Dr Charles *The Place-names of Pembrokeshire* ym 1992 pan oedd yntau'n 85 mlwydd oed mewn dwy gyfrol sylweddol a 867 o dudalennau. Roedd heb amheuaeth yn llafur cariad aruthrol ac yn waith oes. Tu allan i'w waith prif ddiddordeb Dr Charles oedd chwarae golf, hobi a rannai gyda'i wraig May. Bu iddynt ddwy ferch, a gwnaethant eu cartref yn Nhresinwen, Teras Cae'r Gog, Aberystwyth. Bu Mrs Charles farw ym 1998 ac yntau yng Nghartref Cwmcynfelin 19 Awst 2000. Amlogwyd ei weddillion yn Amlogfa Aberystwyth.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru 2002

Yr Agor, Hydref 2000

gwybodaeth bersonol

gwybodaeth gan Mr Daniel Huws

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Bertie George Charles

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821090

Dyddiad cyhoeddi: 2009-07-29

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION

